
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

STRATEGAETH NEWID HINSAWDD A NEWID ECOLEGOL CYNGOR SIR DDINBYCH 2021/22-2029/30

Dogfen ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus



Cynnwys

Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych **3**

Sut wnaethom ddatblygu'r strategaeth hon 4

Strategaethau eraill y Cyngor 5

Cyngor Di-garbon net erbyn 2030 **6**

Beth yw ein nod? 6

Beth yw ein man cychwyn? 7

Ble rydym eisiau ei gyrraedd? 8

Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod? 14

Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 14

Camau gweithredu a phrosiectau 16

Cyngor sy'n Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 **20**

Beth yw ein nod? 20

Beth yw ein man cychwyn? 20

Ble rydym eisiau ei gyrraedd? 24

Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod? 26

Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 26

Camau gweithredu a phrosiectau 28

Strategaeth ariannol i gynnal y strategaeth a'r cynllun gweithredu **31**

Sut fyddwn yn monitro cynnydd **32**

Sut byddwn yn rhannu ein dysgu **33**

03
Croeso

i Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Sir Ddinbych



Cynghorydd Brian Jones (Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd)



Cynghorydd Tony Thomas
(Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau)



Judith Greenhalgh
(Prif Weithredwr)

Newid hinsawdd a newid ecolegol yw'r her fyd-eang sy'n diffinio ein hoes. Mae'n effeithio ar bopeth sy'n byw ar ein planed, gan eich cynnwys chi a fi.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn egluro beth mae'n ei olygu i fod yn 'ddi-garbon net' ac yn 'ecolegol gadarnhaol' a sut rydym yn anelu at gyflawni'r nodau hyn erbyn 2030.

Drwy wneud hyn, rydym yn credu y gall Cyngor Sir Ddinbych gyfrannu at:

- fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yr ydym yn ei wynebu
- gostwng o leiaf 95% o'n hallyriadau yng Nghymru erbyn 2050 a chyflawni ein dyletswydd statudol fel awdurdod lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016,
- gwneud y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ddi-garbon net erbyn 2030, fel yr amlinellir yng nghynllun darparu *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel Llywodraeth Cymru.*

Rydym yn falch i fod yn un o'r cynghorau cyntaf yng Nghymru i gael trechu newid hinsawdd a newid ecolegol fel egwyddor arweiniol yn ein proses wneud penderfyniadau. Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom newid ein Cyfansoddiad – y gyfres o reolau ac egwyddorion y mae'r Cyngor yn eu dilyn – i adlewyrchu hyn yn ffurfiol. Rydym hefyd yn anelu at ddatblygu ein henw da o ran lleihau carbon a gwella bioamrywiaeth, a ddarparwyd yn ddiweddar dan ein blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol (2017-2022) mewn perthynas â'r Amgylchedd.

Rydym wedi gwneud dechrau cadarnhaol ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'n cymunedau, staff, partneriaid a noddwyr i barhau yn ein hymdrechion ar y cyd i sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Beth yw'r ddogfen hon?

Ym mis Gorffennaf 2019 datganodd Cyngor Sir Ddinbych **Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.**

Mewn ymateb ac erbyn 31ain Mawrth 2030 nod y **Cyngor yw dod yn Gyngor Di-Garbon Net a Chyngor Ecolegol Gadarnhaol.**

Mae'r ddogfen hon yn cynnig rhagor o fanylion am y ddwy nod a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd ac mewn fformatau eraill ar gais.

I gael gwybodaeth am unrhyw faterion yn y llyfryn hwn, cysylltwch â'r Tîm Newid Hinsawdd os gwelwch yn dda ar:
E-bost: newidhinsawdd@sirddinbych.gov.uk
Ffôn: 01824 706000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8:30am-5pm).
Ysgrifennwch atom: Tîm Newid Hinsawdd, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch SP 62, Rhuthun, LL15 9AZ.

04

Sut wnaethom ddatblygu'r strategaeth hon

Fe wnaeth Cyngor Sir Ddinbych ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019 gan ymrwymo i fod yn Gyngor 'di-garbon net' (amsugno gymaint o garbon â'r ydym yn ei allyrru) erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth.

Ym mis Ionawr a Chwefror 2020, gofynnodd y Cyngor am adborth y cyhoedd ar ein nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol a syniadau i'n helpu i'w cyflawni erbyn 2030.

Drwy ategu at y syniadau a dderbyniom, buom yn gweithio drwy gydol 2020 gyda chynghorwyr a swyddogion i ddatblygu ein Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22-2029/30). Roedd hyn yn cynnwys cyfrifo ôl-troed carbon y Cyngor a bioamrywiaeth tir y Cyngor, archwilio'r llwybr y byddwn yn ei gymryd yn y cyfnod tan 2030 drwy gynllunio sefyllfaoedd a chynnal gweithdai gyda'n meysydd gwasanaeth i nodi beth allwn ni ei wneud i'n helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Mae grŵp tasg a gorffen yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, a sefydlwyd fel rhan o'r datganiad argyfwng, wedi arwain y gwaith hwn. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys dau gynrychiolydd o bob parti gwleidyddol y Cyngor gan gynnwys aelodau arweiniol y Cabinet sy'n gyfrifol am y newid hinsawdd a'r newid ecolegol.

Mae ein cyfrifiadau ar gyfer y waelodlin a'r uchelgeisiau di-garbon net wedi dilyn y fethodoleg yng Nghyfundrefn Adrodd Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth Cymru ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru.

Mae ein cyfrifiadau ar gyfer gwaelodlin ac uchelgeisiau cadarnhaol ecolegol wedi cael eu harwain gan fethodoleg sefydledig gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU. Ond oherwydd ei gymhelthdod, dim ond awgrym yw unrhyw fesur o werth bioamrywiaeth.

Ym mis Tachwedd 2020, gofynnom i staff y Cyngor a'r cyhoedd am eu hadborth ar y ddogfen ddrafft. Mae'r adborth wedi helpu i siapio Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor (2021/22-2029/30) a gafodd ei chyflwyno i aelodau etholedig ym mis Ionawr 2021 a.... [i'w gadarnhau].

05

Strategaethau eraill y Cyngor

Mae strategaethau a meysydd gwaith eraill yn cefnogi ein nod o fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a newid ecolegol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol
- Datgarboneiddio tai cymdeithasol
- Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd
- Cynllun Rheoli Ansawdd Aer
- Strategaeth Coetir a Choed (yn cael ei datblygu ar hyn o bryd)
- Cynllun Cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth
- Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol
- Strategaeth Fflyd
- Cynllun Gweithredu ar y Defnydd o Blastig Untro
- Strategaeth Clefyd Coed Ynn (yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Strategaeth Rhandiroedd Sirol (yn cael ei datblygu ar hyn o bryd)
- Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Strategaeth Rheoli Asedau 2017-2021

06

Cyngor Di-garbon net erbyn 2030

Beth yw ein nod?

Ein nod yw bod yn 'ddi-garbon net' erbyn 31 Mawrth 2030. Mae hyn yn golygu y bydd allyriadau carbon y Cyngor, minws y carbon a amsugnir gan dir sy'n berchen neu'n cael ei weithredu gan y Cyngor , yn hafal i sero.

Bydd y ffynonellau allyrru canlynol yn cyfrif tuag at ein nod di-garbon net, a gyda'i gilydd, byddant yn cael eu hadnabod fel ôl troed di-garbon.

Adeiladau	Byddwn yn lleihau allyriadau o'r trydan, nwy, LPG, olew, biomas a dŵr rydym yn eu defnyddio yn yr adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor[2]
Gwastraff	Byddwn yn lleihau allyriadau o'r gwastraff a gynhyrchir gan y Cyngor ac a gesglir gan y Cyngor ger ymyl palmant
Fflyd	Byddwn yn lleihau allyriadau o'r petrol a'r disel rydym yn eu defnyddio i yrru'r cerbydau sy'n eiddo i'r Cyngor.
Staff y cymudo	Byddwn yn lleihau'r allyriadau sy'n deillio o staff a chynghorwyr yn teithio i ac o'u gwaith.
Goleuadau stryd	Byddwn yn lleihau allyriadau o'r trydan a ddefnyddir gan bolion lampau ac arwyddion traffig sy'n eiddo i'r Cyngor.
Teithio at ddibenion busnes	Byddwn yn lleihau'r allyriadau sy'n deillio o staff a chynghorwyr yn teithio fel rhan o'u gwaith. .

Bydd y ffynonellau amsugno carbon canlynol yn cyfrif tuag at ein nod di-garbon:

Glaswelltiroedd	Byddwn yn cynnal y glaswelltiroedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu.
Coedwigoedd / Coetiroedd	Byddwn yn cynyddu cyfanswm y coedwigoedd a'r coetiroedd mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu.

Rydym hefyd yn anelu at ostwng cyfanswm y carbon a gaiff ei allyrru o gadwyn gyflewni'r Cyngor o 35% erbyn 31 Mawrth 2030.

Cadwyn Gyflenwi	Byddwn yn lleihau allyriadau o'r holl nwyddau a gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu prynu gan eraill.

1. Heb gynnwys tiroedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ond mae'n eu rhentu i eraill.

2. Mae adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cyfeirio at adeiladau fel swyddfeydd, depos, ysgolion a chanolfannau hamdden sy'n eiddo i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys Tai Cyngor

3. O'i gymharu â gwaelodlin 2019/20

Beth yw ein man cychwyn?


Cyfanswm y carbon a gafodd ei allyrru gan ôl-troed Di-garbon Cyngor Sir Ddinbych (GSDd) yn 2019/20 oedd 18,915[4] tCO2e.

Cyfanswm y carbon a gafodd ei amsugno gan diroedd a oedd yn eiddo i GSDd ac a oedd yn cael eu gweithredu ganddo yn 2019/20 oedd 2,147 tCO2e.


Felly, sefyllfa Di-garbon net y Cyngor yn 2019/20 oedd +16,498[5] tCO2e.

Nod Di-garbon net y Cyngor yw bod y ffigur o 16,498 tCO2e yn cyrraedd sero erbyn 31ain Mawrth 2030.
Mae'r tablau a'r graffiau isod yn disgrifio faint o garbon gafodd ei allyrru gan y Cyngor o bob ffynhonnell allyriadau a faint gafodd ei amsugno gan bob ffynhonnell amsugno yn 2019/20.

Ffynhonnell allyriadau carbon	**Swm y carbon sy'n cael ei allyrru**
Adeiladau	10,151 tCO2e
Gwastraff	2,886 tCO2e
Fflyd	2,693 tCO2e
Staff yn Cymudo	1,848 tCO2e
Goleuadau Stryd	788 tCO2e
Teithio Busnes	550 tCO2e
Cyfanswm	**18,915 tCO2e**



Ffynhonnell amsugno carbon	**Faint o garbon a amsugnwyd yn 2019/20**
Glaswelltiroedd	1,564 tCO2e
Coedwigoedd/Coetiroedd	854 tCO2e
Cyfanswm	**2,417 tCO2e**



Yn ogystal â hyn, gwnaeth y Cyngor allyrru 22,710 tunnell o CO2e o'i gadwyn gyflenwi yn 2019/20.

4. Mae tCO2e yn dalfyriad o "tunelli o garbon deuocsid cyfatebol" ac mae'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio nwyon tŷ gwydr gwahanol mewn uned gyffredin - carbon.

5. Caiff hwn ei gyfrifo drwy dynnu'r carbon a amsugnir o'r carbon a allyrrir, h.y. tynnu'r ffigur 2,147 o'r ffigur 18,915

08

Ble rydym eisiau ei gyrraedd?

I gyflawni ein nod di-garbon net, mae'n rhaid i ni leihau faint o garbon mae'r Cyngor yn ei allyrru a chynyddu faint o garbon mae'n ei amsugno.

Mae'r tabl isod yn dangos faint rydym yn anelu i ostwng ar bob ffynhonnell allyrru erbyn 31 Mawrth 2030.

Byddwn yn cyfuno ein hymdrechion â'r cynnydd cenedlaethol i ddatgarboneiddio rhwydweithiau tanwydd ac ynni. Byddwn yn ymateb i gyfleoedd newydd sy'n codi er mwyn ein galluogi i fynd ymhellach i leihau ein hallyriadau carbon . Mae cerdyn post o'r dyfodol yn dod â'r ffigurau hyn yn fyw.

Ffynhonnell allyriadau carbon	**Faint rydym yn anelu i ostwng y ffynhonnell hon o'i gymharu â 2019/20**	**Faint o garbon fydd yn cael ei allyrru yn 2029/30 os byddwn yn cyflawni'r gostyngiad hwn**
Adeiladau	50%	5,112 tCO2e
Gwastraff	35%	1,876 tCO2e
Fflyd	60%	1,077 tCO2e
Staff yn Cymudo	55%	832 tCO2e
Goleuadau Stryd	45%	433 tCO2e
Teithio Busnes	80%	110 tCO2e
Cyfanswm		**9,440 tCO2e**

6. Er enghraifft, cyflwyno technoleg newydd sydd ar gael i bawb ac sy'n hawdd ei defnyddio, neu ddatblygiad mawr mewn dulliau cynhyrchu egni.

09

Annwyl y Cyngor yn 2020, mae'n 2030 yn fan hyn!

Wel mae'r siwrnai i gyflawni Cyngor Di-Garbon Net wedi bod yn heriol, ond yn llwyddiannus! Ymddiheuriadau am y sbwylwyr, ond dyma rai o'r penawdau ynghylch sut y gwnaethoch lwyddo i leihau eich carbon...

Yn adeiladau'r Cyngor, rydym wedi gostwng ynni ar gyfer gwres, unrhyw beth sy'n defnyddio trydan a'r defnydd o ddŵr drwy gynyddu tyndra aer adeiladau ac effeithlonrwydd eu systemau a'u hoffer. Mae bob un o'n hadeiladau newydd yn adeiladau carbon isel. Rydym wedi cynyddu lefelau cynhyrchu trydan adnewyddadwy ar ein safleoedd ac wedi trosi mwy o systemau gwresogi safleoedd i opsiynau adnewyddadwy carbon isel. Rydym yn defnyddio rhagor o dechnegau casglu dŵr glaw ar gyfer y dŵr a ddefnyddir yn ein hadeiladau.

Rydym wedi osgoi teithiau fflyd gormodol drwy sicrhau fod ein darpariaeth gwasanaeth yn fwy hygyrch ac effeithlon. Mae gennym lawer mwy o gerbydau trydan ac rydym wedi gosod mannau gwefru ar draws ein hadeiladau a'n meysydd parcio. Rydym hefyd wedi treialu opsiynau allyriadau isel iawn ar gyfer ein cerbydau fflyd mwy, megis lorïau gwastraff a graeanu.

Mae ein cyfraddau ailgylchu wedi gwella eto, gyda llai o halogiadau gan fod gwastraff bellach yn cael ei wahanu yn eu tarddle. Mae'r ffocws ar atal gwastraff yn y sir bellach wedi lleihau cyfanswm y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu a'i gasglu, gyda rhagor o eitemau yn cael eu hailddefnyddio yn hytrach na'u taflu.

Mae nifer o'n staff bellach yn gweithio o gartref, felly mae gennym lai o swyddfeydd. Pan mae staff yn dod i'w gwaith, maent yn defnyddio'r swyddfa agosaf i'w cartref, sy'n golygu eu bod yn teithio llai o filltiroedd ac yn fwy tebygol o gerdded, seiclo neu ddal y bws i'w gwaith. Mae teithiau busnes yn rhywbeth anghyffredin iawn erbyn hyn, gan fod y mwyafrif helaeth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein. Pan mae swyddogion yn cyfarfod, maent yn gwneud hyn yn eu hardal leol ac nid ym mhrif swyddfa'r Cyngor. Mae gan Swyddogion sy'n teithio i'w gwaith fynediad at gerbyd trydan.



i: Cyngor Sir Ddinbych 2020
Gogledd Cymru

10

Mae'r tabl isod yn disgrifio faint rydym am geisio cynyddu cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugno ar gyfer pob ffynhonnell amsugno carbon erbyn 31ain Mawrth 2030. Bydd ein hymyrraeth uniongyrchol yn helpu i ddarparu'r cynnydd mewn amsugniad carbon yn ogystal â sicrhau dealltwriaeth well o gapasiti amsugnad carbon rhai o'n tirweddau mwy sefydledig. Eto, mae cerdyn post o'r dyfodol yn dangos sut fyddwn o bosibl wedi cyrraedd ein targed yn 2030.

Ffynhonnell amsugno carbon	**Faint rydym yn anelu i ostwng y ffynhonnell hon o'i gymharu â 2019/20?**	**Faint o garbon fydd yn cael ei amsugno yn 2029/30 os byddwn yn cyflawni'r cynnydd hwn**
Glaswelltiroedd	0%	1,564 tCO2e
Coedwigoedd / Coetiroedd	822%	7,876 tCO2e
Cyfanswm		**9,440 tCO2e**

Annwyl y Cyngor yn 2020, mae'n 2030 yn fan hyn!

Wel mae'r siwrnai i gyflawni Cyngor Di-Garbon Net wedi bod yn heriol, ond yn llwyddiannus! Mae'n ddrwg gen i am y sboelwyr, ond roeddem yn meddwl efallai y byddai gennych ddiddordeb mewn gweld rhai o'r penawdau ynghylch sut y gwnaethoch lwyddo i gynyddu eich amsugniad carbon...

Rydym wedi dal ein gafael ar y glaswelltiroedd yr ydym yn berchen arnynt i ddiogelu'r buddion amsugno carbon, ac rydym wedi darparu prosiectau i wella ein cyfoeth o rywogaethau yng nghynefinoedd ein glaswelltir i gynyddu bioamrywiaeth.

Rydym wedi ymdrechu'n galed i gynyddu faint o goedwigoedd rydym yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Dros y naw mlynedd, rydym wedi trosi ein tir presennol ac wedi prynu tir newydd i ddatblygu sinciau carbon a noddfeydd bywyd gwyllt gan ddethol a phlannu coed yn ofalus, gan gynnwys glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau.

Mae hyn wedi arwain at fuddion ychwanegol i'n cymunedau, gyda choed wedi'u plannu ar diroedd uchel oddi wrth ddalgylchoedd afonydd i leihau'r perygl o lifogydd a'n caniatáu i agor y mannau hyn i'r cyhoedd at ddibenion hamdden, twristiaeth a lles.




i: Cyngor Sir Ddinbych 2020
Gogledd Cymru


Os bydd y Cyngor yn cyflawni ei dargedau fel yr amlinellir yn y tablau uchod, yn 2029/30, bydd cyfanswm ein hallyriadau carbon minws cyfanswm y carbon a amsugnir yn hafal i sero. Byddwn yn ddi-garbon net.

Mae'r graffiau isod yn dangos y newid ym mhob ffynhonnell allyrru carbon, ac ym mhob ffynhonnell amsugno carbon gan gymharu'r cyfanswm yn 2019/20 â'r rheiny yn 2029/30 os byddwn yn cyflawni ein targedau.

Swm y carbon a allyrrwyd gan y Cyngor yn 2019/20 o'i gymharu â'r allyriadau arfaethedig ar gyfer 2029/30



Swm y carbon a amsugnwyd gan y Cyngor yn 2019/20 o'i gymharu â'r amsugniad a ragwelir yn 2029/30



Cyfanswm 2019/20: 2,417
Cyfanswm 2029/30: 9,440


12

Rydym hefyd yn anelu at leihau'r carbon a allyrrir o'n cadwyn gyflenwi o 35%. Byddwn yn gweithio gyda busnesau i leihau'r dwysedd carbon yn y pethau rydym yn eu prynu ganddynt a'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau, a byddwn hefyd yn ceisio cynyddu'r fantais gymunedol leol sydd ynghlwm â'r contractau hynny.

Mae'r tabl isod yn dangos faint rydym am geisio gostwng canran y carbon sy'n cael ei allyrru gan gadwyn gyflenwi'r Cyngor erbyn 31ain Mawrth 2030. Mae'r graff isod yn dangos y newid yng nghyfanswm allyriadau carbon ein cadwyn gyflenwi drwy gymharu cyfanswm yr allyriadau yn 2019/20 â chyfanswm yr allyriadau yn 2029/30 petai'r Cyngor yn llwyddo i gyrraedd ei darged. Mae cerdyn post arall o'r dyfodol yn dangos sut fyddwn o bosibl wedi cyflawni ein targedau erbyn 2030.

Ffynhonnell allyriadau carbon	Faint rydym yn anelu i ostwng hyn o'i gymharu â 2019/20	Faint o garbon fydd yn cael ei allyrru yn 2029/30 os byddwn yn cyflawni'r gostyngiad hwn
Cadwyn Gyflenwi	35%	14,762 tCO2e

Swm yr allyriadau carbon o gadwyni cyflenwi yn 2019/20 o'i gymharu â'r hyn a ragwelir ar gyfer 2029/30



Annwyl y Cyngor yn 2020, mae'n 2030 yn fan hyn!

Ymddiheuriadau am y sboelwyr, ond roeddem yn meddwl y byddai gennych ddiddordeb mewn gweld rhai o'r penawdau ynghylch sut y gwnaethoch lwyddo i leihau allyriadau carbon yn eich cadwyn gyflenwi...

Rydym wedi gostwng ein gwariant lle bynnag y bo modd, yn arbennig o ran papur, gan fod y Cyngor yn 2030 bellach yn ddi-bapur. Ers cyflwyno dull costio oes gyfan i gaffael yn gynnar yn y rhaglen, rydym wedi prynu eitemau o ansawdd uwch yn llai aml.

Mae'r dwysedd carbon yn y maes adeiladu wedi gwella'n sylweddol, gyda'r sector gyhoeddus yng Nghymru yn pwysleisio pwysigrwydd darpariaeth carbon isel ar gyfer prosiectau adeiladu newydd i gyflenwyr.

Rydym yn ceisio gwerth ychwanegol gan bob un o gontractau'r Cyngor sydd dros £25,000, ac ynghyd â chymunedau, rydym wedi nodi'r buddion amgylcheddol y mae cymunedau yn eu gwerthfawrogi fwyaf, p'un a yw hynny'n ymwneud â lleihau carbon, amsugno carbon neu wella bioamrywiaeth.



i: Cyngor Sir Ddinbych 2020
Gogledd Cymru

14

Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod?

Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

I gyflawni ein nod di-garbon net erbyn 2030, bydd yn rhaid i ni newid y ffordd rydym yn darparu'r ystod eang o waith y mae Llywodraeth Cymru, ein partneriaid a'n cymunedau yn gofyn i ni ei wneud.

Yn ystod haf 2020, cynhaliom weithdai ar-lein gyda'r timau rheoli ym mhob un o'n meysydd gwasanaeth i ddechrau nodi'r ffyrdd y gallwn newid y ffordd rydym yn gwneud pethau drwy helpu i leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugniad carbon. Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar syniadau a gafwyd gan y cyhoedd yn ystod y digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd ar ddechrau 2020.

Cafwyd dros 100 o awgrymiadau o ran newidiadau i brosesau a pholisïau, ac rydym yn anelu at weithredu gymaint o'r rhain ag y gallwn dros y naw mlynedd.

Mae'r graffig isod yn amlygu rhai o'r blaenoriaethau o ran newidiadau i brosesau a'r polisïau yr ydym yn gobeithio eu rhoi ar waith ym Mlynyddoedd 1 i 3 (2021/22 – 2023/24).

Mae hon yn rhestr ddeinamig a hyblyg – mae'n bosibl y byddwn yn gweithredu rhai pethau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y graffig isod, wrth i ni ymateb i gyfleoedd newydd.

Trwy ymgysylltu a chyfathrebu, sicrhau bod amcanion sy'n seiliedig ar wasanaethau yn cyd-fynd â'r uchelgais corfforaethol i ddod yn ddi-garbon a lleihau allyriadau carbon y gadwyn gyflenwi.	Rhoi'r newid yng nghyfansoddiad y Cyngor ar waith er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol, gan gynnwys newidiadau i dempledi achosion busnes a chostio ar hyd eu hoes.	Cynnwys cyfrifoldeb staff dros newid hinsawdd a newid ecolegol ym mhob swydd ddisgrifiad, mewn ymgynghoriad gyda staff a'r undebau.
Cefnogi ffyrdd newydd o weithio – dysgu o'r profiad yn gweithredu yn unol â rheolau COVID-19, gan gynnwys gweithio o gartref a chyfarfodydd ar-lein.	Parhau i weithredu'r polisi cerbyd trydan yn gyntaf wrth brynu cerbydau newydd.	Datblygu mor gyflym â phosibl i fod yn ddi-bapur, e.e. bwndelu achosion electronig, arwyddo electronig a selio contractau, pecynnau papur ar gyfer cyfarfodydd democrataidd.

Sicrhau bod lleihau carbon yn cael ystyriaeth briodol yn nogfennau Caffael y Cyngor – Polisi a Strategaeth, templedi Comisiynu, gwerthusiadau tendrau.	Nodi'r buddion cymunedol yng nghontractau'r Cyngor sy'n lleihau carbon ac yn cynyddu amsugno carbon.	Safoni'r dull ar gyfer gwastraff ac ailgylchu ar draws ysgolion a safleoedd y Cyngor gan gynnwys darparu ystod eang o wasanaethau ailgylchu.
Ystyried polisïau i lunio a datblygu adeiladau'r Cyngor i safonau carbon isel/gostwng carbon (e.e. passivhaus)	Sicrhau bod dewis adeiladu gwell ecogyfeillgar bob amser yn cael ei gyflwyno mewn achosion busnes wrth benderfynu ar brosiectau cyfalaf mawr.	Alinio'r Strategaeth Rheoli Asedau 2021 newydd gyda'r uchelgais i fod yn ddi-garbon net a chyflwyno polisi caffael a gwaredu asedau sy'n cefnogi cadw a/neu brynu tir ar gyfer amsugno carbon a gwelliannau ecolegol.
Adolygu Polisi Safleoedd Diangen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i gynnwys yr opsiwn i GSDd gadw'r safle ar gyfer ei drosi yn goetiroedd/perllannau cymunedol.	Ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwell defnydd o dir ar draws y sir i gyflawni amcanion lluosog e.e. rheoli'r perygl o lifogydd yn naturiol drwy blannu coed, ac ati.	Sicrhau bod Polisïau Clefyd Coed Ynn sy'n cynnwys plannu coed newydd yn cynyddu'r stoc o goed brodorol.
Hybu polisïau cynllunio presennol yn y Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021 a Chanllawiau Cynllunio Atodol presennol y Cyngor sy'n cyfrannu at ddatblygu mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol.	Darparu'r CDLl newydd sy'n gwella polisïau cynllunio cenedlaethol ac yn cynnwys polisïau a chanllawiau cynllunio atodol er mwyn helpu i leihau'r newid hinsawdd.	Diwygio dangosyddion monitro yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd i alinio gyda rhaglen newid hinsawdd.

16

Camau gweithredu a phrosiectau

I gyflawni Cyngor di-garbon net, byddwn yn datblygu'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud dan flaenoriaeth amgylcheddol ein Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â gwneud pethau newydd.

Nodwyd dros 90 o syniadau i leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugniad carbon yn y gweithdai ar-lein yn ystod haf 2020, ac rydym yn anelu at weithredu gymaint ohonynt â phosibl, yn ogystal â chamau gweithredu eraill i ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos y camau blaenoriaeth a'r prosiectau yr ydym wedi'u nodi hyd yma i leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugniad carbon. Gallwn fod yn fwy penodol ar gyfer Blynyddoedd 1 i 3, ond ni allwn fod yr un mor fanwl ar gyfer y blynyddoedd yn dilyn hynny yn sgil natur ansicr a chymhleth yr awdurdodau lleol.

Mae darpariaeth y prosiectau a'r camau gweithredu hyn yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.

Cam Gweithredu/Prosiect	Pryd		
	Blynyddoedd 1-3 2021/22-2023/24	4-6 2024/25-2026/27	7-9 2027/28-2029/30
Camau gweithredu i leihau allyriadau carbon y Cyngor o adeiladau a goleuadau stryd			
Cwblhau ein prosiect Goleuadau Stryd 7 mlynedd	●		
Adolygu a rhesymoli faint o adeiladau rydym yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu	●		
Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau presennol, gan gynnwys mesurau i wella tyndra aer (e.e insiwleiddiad atig, insiwleiddiad wal geudod), lleihau defnydd trydan (e.e. goleuadau LED, rheoli pŵer) a chynyddu effeithlonrwydd gwres (e.e. uwchraddio systemau rheoli gwresa rheoli adeiladau)	●	●	●
Sicrhau fod adeiladau newydd y Cyngor yn gweithredu mewn modd carbon isel gan gynnwys integreiddio ynni adnewyddadwy a thechnolegau gwresogi yn ogystal â chasglu dŵr glaw (e.e Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif)	●	●	●
Defnyddio cynlluniau egni adnewyddadwy ar gyfer trydan gan gynnwys gweithio gydag ysgolion i gyflwyno ceisiadau ariannu i gronfeydd ffermydd gwynt i osod egni adnewyddadwy (e.e. tyrbinau gwynt a phaneli PV) a gosod pyrth ceir solar ym meysydd parcio swyddfeydd y Cyngor.	●	●	●
Trosi systemau gwresogi yn adeiladau presennol y Cyngor yn rhai gwres adnewyddadwy (e.e. pympiau gwres ffynhonnell aer, pympiau gwres o'r ddaear)	●	●	●

Cam Gweithredu/Prosiect	Pryd		
	Blynyddoedd 1-3 2021/22-2023/24	4-6 2024/25-2026/27	7-9 2027/28-2029/30
Gwneud gwaith sylweddol i adnewyddu adeiladau presennol y Cyngor fel eu bod yn gweithredu fel rhai carbon isel (e.e. Prosiect gwneud Neuadd y Sir yn fwy 'Gwyrdd')	●	●	●
Cyflwyno casglu dŵr glaw ar draws ystâd y Cyngor, yn arbennig mewn depos sy'n defnyddio llawer o ddŵr.	●	●	●
Camau gweithredu i leihau allyriadau carbon y Cyngor o'r fflyd, staff yn cymudo a theithio busnes			
Gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn 9 o feysydd parcio'r Cyngor	●		
Cyflwyno ceir rhannu trydan yn swyddfeydd y Cyngor	●		
Trosi 3 cerbyd gwastraff i gerbydau trydan	●		
Cyflwyno mannau gwefru cerbydau trydan yng nghartrefi staff sy'n dechrau ac yn gorffen eu diwrnod gartref ond yn defnyddio cerbyd fflyd y Cyngor	●		
Trosi pob un o gerbydau masnachol ysgafn (hyd at 3.5 tunnell) y Cyngor i gerbydau trydan	●	●	
Gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys swyddfeydd, depos, llyfrgelloedd, ac atyniadau twristaidd.	●	●	
Ymestyn mannau gwefru cyhoeddus ar draws Sir Ddinbych sydd hefyd yn gallu gwasanaethu cerbydau fflyd trydan CSDd	●	●	●
Cyflwyno platfform rhannu ceir i staff		●	●
Trosi cerbydau mwyaf y Cyngor i opsiynau allyrru carbon isel iawn		●	●
Treialu cerbydau mawr a gaiff eu pweru gan hydrogen (e.e. lorïau bin)		●	●
Camau gweithredu i leihau carbon y Cyngor o wastraff			
Ail-lansio ailgylchu mewn adeiladau dinesig a gosod biniau newydd ar safleoedd y Cyngor er mwyn gwahanu gwastraff ailgylchu yn eu tarddle		●	
Gweithio gyda'r trydydd sector i gyflwyno adran yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Rhyl a Rhuthun i ailddefnyddio ac atgyweirio eitemau i'w hatal rhag cael eu gwastraffu		●	
Darparu'r Orsaf Drosglwyddo Gwastraff Newydd fel bod modd didoli rhagor o ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu		●	

Cam Gweithredu/Prosiect	Pryd		
Blynyddoedd	1-3 2021/22-2023/24	4-6 2024/25-2026/27	7-9 2027/28-2029/30
Lleihau'r defnydd o blastig mewn Ysgolion a swyddfeydd y Cyngor	●		
Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleuster newydd ar gyfer ailgylchu clytiau yn Sir Ddinbych, ailgyfeirio cynnyrch hylendid amsugnol ar draws Gogledd Orllewin Cymru o'r gwastraff gweddilliol i'r gwastraff ailgylchu	●	●	
Darparu prosiect gwella er mwyn i ragor o wastraff gael ei ail-ddefnyddio neu ei ailgylchu drwy ddarparu swyddogaethau gwasanaeth rheng flaen Priffyrdd a Gwasanaethau Stryd amrywiol	●	●	●
Camau gweithredu i leihau carbon y Cyngor o'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu			
Creu cwestiynau yn ymwneud â charbon i'w defnyddio yn y broses o werthuso tendrau, i'w sgorio a'u pwysoli fel rhan o'r asesiad ansawdd o dendrau.	●		
Creu porth ar-lein i gipio ac adrodd ar Fudd Cymunedol contractau gan gynnwys mesurau yn gysylltiedig â'r agenda hwn	●		
Nodi swyddogion y cyngor sy'n caffael amlaf i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol a chyfraniad caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol	●	●	●
Ail-ystyried contractau rhanbarthol wrth iddynt ddod i ben gyda'r nod o leihau carbon yn y dyfodol	●	●	●
Mynd ar ôl Grantiau Wedi'u Personoli ar gyfer gofal ac ysgogi gwaith Microfenter – gan olygu bod modd prynu gofal wedi'i bersonoli gan ddarparwyr sy'n lleol iawn i'r dinesydd i leihau'r ôl-troed carbon	●	●	●
Gweithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog arferion carbon îs		●	●

Cam Gweithredu/Prosiect	Pryd		
	Blynyddoedd	**1-3 2021/22-2023/24**	**4-6 2024/25-2026/27**	**7-9 2027/28-2029/30**
Camau gweithredu i gynyddu faint o garbon mae'r Cyngor yn ei amsugno			
Cwblhau'r Prosiect PLANNU – plannu 18,000 o goed mewn ardaloedd trefol.		●		
Sefydlu planhigfa goed y sir, a thyfu 5,000 o goed bob blwyddyn i'w plannu ar draws y sir.		●		
Gweithio gydag ysgolion i nodi cyfleoedd plannu ar diroedd ysgolion		●		
Trosi tir newydd y Cyngor a brynwyd i storio carbon a bioamrywiaeth drwy ailddyfiant naturiol a gwaith plannu coed wedi'i dargedu, gan alluogi mynediad i'r cyhoedd lle bynnag y bo hynny'n bosibl.		●	●	●
Camau Gweithredu Cefnogol Eraill			
Darparu hyfforddiant llythrennedd carbon a chreu modiwl e-ddysgu i bob cynghorydd a rheolwr		●		
Datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd i sicrhau fod blaenoriaethau newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu mewn polisïau cynllunio a phenderfyniadau lleol		●		
Bydd darparu Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n deillio o'r CDLI newydd yn cefnogi'r agenda newid hinsawdd		●	●	
Codi ymwybyddiaeth staff am eu rôl i leihau ein hallyriadau carbon, a'u helpu i newid eu hymddygiad		●	●	●
Rhannu adnoddau a dysg ar y rhaglen hon gydag ysgolion ar draws y sir ac annog newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad		●	●	●
Gweithio gyda pherchnogion tir yn Sir Ddinbych i annog amsugniad carbon.		●	●	●

20

Cyngor sy'n Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030

Beth yw ein nod?

Ein nod yw gwarchod, rheoli ac adfer ein tir yn ogystal â chreu ardaloedd newydd ar gyfer natur fel bod ecosystemau yn Sir Ddinbych yn amrywiol, wedi'u cysylltu, yn fawr o ran eu maint a'u graddfa, yn iach ac yn gallu addasu; felly, mae hyn nid yn unig yn cynnal bioamrywiaeth ond mae'n ei wella. Dyma ein nod fel Cyngor Ecolegol Gadarnhaol.

Bydd y gwaith rydym yn ei wneud i gyflawni'r nod hwn hefyd yn helpu ein hymgyrch i gyflawni'r nod Cyngor Di-garbon Net, ac fel arall.

.

Beth yw ein man cychwyn?

Rydym wedi mapio data ar gyfer y cyfoeth o rywogaethau ar draws Sir Ddinbych a thir sy'n berchen ac yn cael ei weithredu gan y Cyngor i roi pwynt dechrau i ni ar gyfer 'gwerth bioamrywiaeth' y Cyngor.

Gan fod bioamrywiaeth yn eang, cymhleth ac yn gydgysylltiedig, dim ond awgrym yw unrhyw fesur o werth bioamrywiaeth.

Mae'r tabl isod yn dangos y cynefinoedd gwahanol yn ôl trefn cyfoeth y rhywogaethau:

7 An ecosystem is all the plants and animals that live in a particular area together with the complex relationship that exists between them and their environment.

Enw'r Cynefin	Sgôr Cyfoeth Rhywogaethau	Llun enghreifftiol
Glaswelltir Calchaidd – wedi'i wella a'i wella'n rhannol	43.02	
Coetir Llydanddail ac Ywen – Cynefinoedd Cymysg, Rhannol a Rhannol Fynyddig	20.91	
Glaswelltir niwtral – heb ei wella ac wedi ei wella'n rhannol	20.44	
Glaswelltir asid – heb ei wella ac wedi ei wella'n rhannol	19.58	
Rhedyn	19.29	


8. Y sgôr hon yw cyfanswm cyfartalog rhywogaethau planhigion fesul llain 200m2 sydd fel arfer yn bresennol mewn cynefin o'r fath. Mae dadansoddiad gwyddonol wedi dangos bod amrywiaeth y rhywogaethau o anifeiliaid yn cynyddu mewn ardaloedd o dir lle mae'r amrywiaeth mwyaf o planhigion.

Enw'r Cynefin	Sgôr Cyfoeth Rhywogaethau	Llun enghreifftiol
Creigiau mewndirol	16.74	
Rhostiroedd isel	15.87	
Planhigion Cynefinol Tal	15.87	
Glaswelltir wedi'i wella	14.28	
Coetir Conifferaidd	14.05	
Tir âr a garddwriaethol	10.25	

Mae'r graff isod yn dangos faint o dir mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu ym mhob math o gynefin o amrywiol gyfoeth o rywogaethau.

Mae 62% o'r tir mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu yn y categorïau is o ran cyfoeth rhywogaethau, a 38% yn y categorïau uchaf.

Swm y tir y mae GsDd yn berchen arno ac yn ei weithredu ym mhob math o gynefin o amrywiol gyfoeth o rywogaethau



Rydym hefyd yn berchen ar nifer o gynefinoedd pwysig eraill, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn ein gwaelodlin o ran cyfoeth o rywogaethau gan fod y categorïau sydd ar gael yn y fethodoleg ar gyfer mesur yn gyfyngedig. Maent yn cynnwys afonydd, nentydd a'r systemau twyni pwysig a chynefinoedd cerrig mân ar arfordir Sir Ddinbych sy'n gartref i amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid prin, megis y nythfa olaf o'r môr-wenoliaid bach (rhywogaeth aderyn) yng Nghymru, ynghyd â madfall y tywod a llyffant y twyni, a gafodd eu hailgyflwyno yma ar ôl iddynt ddiflannu yng Nghymru.

Rydym yn cynhyrchu adroddiad bob tair blynedd ar yr hyn rydym wedi'i wneud er mwyn cydymffurfio â dyletswydd statudol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a chadw a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Mae'r adroddiad diweddaraf, ar gyfer 2016-19, yn cynnig rhagor o fanylion am ein man dechrau o ran ein nod ecolegol gadarnhaol[10].

9. Teitl llawn y ddyletswydd hon yw "Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau" ond cyfeirir ati'n aml fel dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

10. Gallwch ddarllen adroddiad Cyngor Sir Ddinbych yma: https://www.biodiversitywales.org.uk/File/763/en-GB

Ble rydym eisiau ei gyrraedd?

I gyflawni ein nod ecolegol gadarnhaol, mae arnom ni angen cynyddu'r canran o dir yr ydym yn ei weithredu ac yn berchen arno sydd â lefel uwch o gyfoeth o rywogaethau.

Gallwn wneud hyn drwy adfer a newid y ffordd rydym yn rheoli tir sy'n eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd i gynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau, a thrwy fodyn berchen ar ragor o dir a chreu rhywogaethau newydd (cilfachau ecolegol) ar gyfer natur).

I gyflawni ein nod ecolegol gadarnhaol, dylai'r canran o dir rydym yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau isaf o ran cyfoeth o rywogaethau fod yn is na'r categorïau uchaf o ran cyfoeth o rywogaethau. Mae'r tabl isod yn dangos y newidiadau disgwyliedig o ran canrannau erbyn 2030.

Categorïau cyfoeth rhywogaethau	Man Cychwyn	Nod erbyn 2030
Categorïau isaf o ran cyfoeth rhywogaethau	62%	Gostwng yn is na 49% o leiaf
Categorïau uchaf o ran cyfoeth rhywogaethau	38%	Cynyddu dros 51% o leiaf

Byddwn yn parhau i ddiogelu, adfer a chynyddu graddau'r cynefinoedd pwysig eraill yr ydym yn berchen arnynt, ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y waelodlin oherwydd y cyfyngiadau sydd ynghlwm â'r fethodoleg ar gyfer mesur.

Rydym yn rheoli ac yn berchen ar gynefinoedd arbennig sydd o bwysigrwydd hanesyddol diwylliannol a/neu'n cael eu rheoli i gefnogi a gwarchod rhywogaethau prin y byddwn o bosibl yn dewis eu rheoli mewn modd mwy manwl. Efallai fod y cynefinoedd hyn yn cefnogi amrywiaeth rywogaethau is, ond mae eu cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid yn aml iawn yn brin – er enghraifft, rhostir grug, sef nodwedd bwysig o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae cerdyn post o'r dyfodol yn dangos sut fydd y Cyngor o bosibl wedi cyflawni ei dargedau ar gyfer 2030.

Annwyl y Cyngor yn 2020, mae'n 2030 yn fan hyn!

Ymddiheuriadau am y sboelwyr, ond roeddem yn meddwl y byddai gennych chi ddiddordeb mewn gweld sut hwyl y cawsoch ar gyflawni Cyngor ecolegol gadarnhaol...

Mae bellach yn ail natur i swyddogion adolygu gwerth bioamrywiaeth a'r effaith y mae gwaith y Cyngor yn ei chael, gan wneud hynny mewn modd sy'n cynnig effaith gadarnhaol ar gyfer ecoleg. Rydym bob amser yn gwneud ein gorau i sicrhau cyn lleied o niwed â phosibl i fioamrywiaeth, ond lle nad oes modd osgoi niwed, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell na phan ddechreuom.

Drwy gydweithio ar draws adrannau, rydym wedi cynyddu bioamrywiaeth drwy drosi cynefinoedd glaswelltir gwell (gan gefnogi cyfoeth is o rywogaethau) i laswelltir niwtral (gan gefnogi

cyfoeth uwch o rywogaethau). Rydym wedi gwneud hyn drwy newid cyfundrefnau torri i ganiatáu ar gyfer ailddyfiant naturiol a thrwy hau hadau dolau a blodau gwyllt.

I sicrhau'r budd gorau i bawb, rydym bellach yn berchen ar fwy o goed amrywiol a llydanddail. Rydym wedi trosi ein tir presennol o gyfoeth rhywogaethau isel, ac wedi prynu tir newydd, i ddatblygu sinciau carbon a noddfeydd bywyd gwyllt gan ddethol a phlannu coed yn ofalus, gan gynnwys glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau.

Rydym wedi gweithio'n galed i ddynodi lleoliadau natur, drwy fabwysiadu dull ailddyfu naturiol, heb ymyraethau mecanyddol, gan ddatblygu safleoedd i fod yn enghreifftiau ecolegol. Rydym wedi ailgysylltu pobl â natur drwy gyfleoedd ar gyfer mynediad hamdden, ac mae hyn wedi ysbrydoli cenhedlaeth newydd o naturiaethwyr sy'n deall pwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol, a sut i'w ddiogelu.



i: Cyngor Sir Ddinbych 2020
Gogledd Cymru

26

Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod?

Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

I gyflawni ein nod i fod yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030, bydd yn rhaid i ni newid y ffordd rydym yn darparu'r ystod eang o waith a thasgau y mae Llywodraeth Cymru, ein partneriaid a'n cymunedau yn gofyn i ni eu gwneud.

Yn ystod haf 2020, cynhaliom weithdai ar-lein gyda'r timau rheoli ym mhob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor i ddechrau nodi'r ffyrdd y gallwn newid y ffordd rydym yn gwneud pethau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. Roedd hyn yn adeiladu ar syniadau a awgrymwyd gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn gynnar yn 2020.

Cafwyd dros 25 o awgrymiadau o ran newidiadau i brosesau a pholisïau, ac rydym yn anelu at weithredu gymaint o'r rhain ag y gallwn dros y naw mlynedd.

Mae'r graffig isod yn amlygu rhai o'r blaenoriaethau o ran newidiadau yr ydym yn gobeithio eu gwneud ym Mlynyddoedd 1 i 3 (2021/22 2023/24) o gyflawni'r strategaeth hon.

Mae hon yn rhestr ddeinamig a hyblyg – mae'n bosibl y byddwn yn gweithredu rhai pethau eraill nad ydynt yn y graffig isod, wrth i ni ymateb i'r cyfleoedd newydd.

Trwy ymgysylltu a chyfathrebu, sicrhau bod amcanion sy'n seiliedig ar wasanaethau yn cyd-fynd â'r uchelgais corfforaethol i ddod yn Ecolegol Gadarnhaol.	Rhoi'r newid yng nghyfansoddiad y Cyngor ar waith i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol, gan gynnwys newidiadau i dempledi achosion busnes.	Cynnwys cyfrifoldeb staff dros newid hinsawdd a newid ecolegol ym mhob swydd ddisgrifiad, mewn ymgynghoriad gyda staff a'r undebau.
Adolygu ein polisi gwirfoddoli i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwella'r amgylchedd.	Parhau ac ehangu'r cynllun ffyrdd ym Mholisi Torri Gwair/Ochr Ffyrdd Gwledig Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd A, B a Diddosbarth).	Datblygu Polisi Peillwyr.

Cyflwyno polisi newid goleuadau allanol i amddiffyn ystlumod a phryfaid - sbectrwm gwyn cynnes (<2700Kelvin) a lampau sy'n cynnwys tonfeddi brig uwch na 550nm	Adolygu safonau amgylcheddol ar gyfer cynnal a chadw tiroedd i ganolbwyntio ar blannu rhagor o goed, llai o waith cynnal a chadw tiroedd i gefnogi bioamrywiaeth. Osgoi difetha mannau gwyrdd.	Datblygu Strategaeth Coed a Choetir.
Sicrhau bod y Strategaeth Rheoli Asedau newydd o 2021 ymlaen yn cyd-fynd â'r uchelgais corfforaethol o ddod yn Ddi-garbon net a chyflwyno polisi newydd ar gyfer gwaredu a chaffael asedau sy'n cefnogi cadw a/neu brynu tir at ddibenion amsugno carbon a gwelliannau ecolegol.	Ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwell defnydd o dir ar draws y sir i gyflawni amcanion lluosog e.e. rheoli'r perygl o lifogydd yn naturiol gan roi lle i natur.	Sicrhau bod amddiffyn a gwella bioamrywiaeth yn cael ystyriaeth briodol yn nogfennau Caffael y Cyngor - dogfennau Polisi a Strategaeth, templedi comisiynu, gwerthusiadau tendrau.
Nodi buddion cymunedol yng nghontractau'r Cyngor sy'n gwella'r amgylchedd ac ecoleg.	Rhoi canllawiau clir i ddatblygwyr i gadw nodweddion ecolegol pwysig ar safleoedd, gan ddatblygu eu cynlluniau o'u hamgylch.	Defnyddio archwiliad cydymffurfiaeth ecolegol ar gyfer ceisiadau cynllunio i sicrhau fod gwaith lliniaru, digolledu a gwella yn cael eu cwblhau.
Hyrwyddo polisïau cynllunio presennol yn y Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021 a chanllawiau cynllunio atodol presennol sy'n cyfrannu at ddatblygiad sy'n gyfrifol yn ecolegol.	Darparu'r CDLl newydd sy'n cynnwys polisïau a chanllawiau cynllunio atodol i gyfrannu at ddatblygiad sy'n gyfrifol yn ecolegol (e.e. polisi ar oleuadau allanol i amddiffyn ystlumod, gofyniad i gynnwys blychau nythu mewn adeiladau)	Diwygio dangosyddion monitro yn y Cynllun Datblygu Lleol i alinio â'r rhaglen wella ecolegol.

28

Camau gweithredu a phrosiectau

I gyflawni Cyngor di-garbon net, byddwn yn datblygu'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud dan flaenoriaeth amgylcheddol ein Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â gwneud pethau newydd.

Nodwyd dros 40 o syniadau i ddiogelu a gwella amrywiaeth yn y gweithdai ar-lein yn ystod haf 2020, ac rydym yn anelu at weithredu gymaint ohonynt â phosibl, yn ogystal â chamau gweithredu eraill i ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos y camau blaenoriaeth a'r prosiectau yr ydym wedi'u nodi hyd yma i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth.

Gallwn fod yn fwy penodol gyda Blynyddoedd 1 i 3, ond ni allwn fod yr un mor fanwl ar gyfer y blynyddoedd yn dilyn hynny oherwydd natur ansicr a chymhleth yr awdurdodau lleol. Mae darpariaeth y prosiectau a'r camau gweithredu hyn yn amodol ar sicrhau'r cyllid Cwblhau'r prosiect PLANNU – plannu 18,000 o goed trefol angenrheidiol.

Cam Gweithredu/Prosiect	Pryd		
	Blynyddoedd 1-3 2021/22-2023/24	4-6 2024/25-2026/27	7-9 2027/28-2029/30
Gweithredu uniongyrchol			
Cwblhau'r prosiect PLANNU – plannu 18,000 o goed trefol	●		
Cwblhau'r Prosiect Asedau Byw – I gynnal, gwella, gwarchod a chadw 'asedau byw' Sir Ddinbych ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.	●		
Sefydlu Meithrinfa Goed i'r Sir, yn tyfu 5,000 o goed y flwyddyn ar gyfer prosiectau plannu ar draws y Sir	●		
Cwblhau'r Prosiect Rheoli Rhostiroedd ac Atal Tanau Gwyllt	●	●	●
Cwblhau'r Prosiect Gwella Bioamrywiaeth – a ariennir gan y grant 'Cymunedau wedi'u cysylltu a Chyfleoedd i Bawb'			
Cyflawni prosiectau gwella ac ehangu ar gyfer rhandiroedd.	●		
Cwblhau'r Prosiect Gwella Bioamrywiaeth – a ariennir gan y grant 'Cymunedau wedi'u cysylltu a Chyfleoedd i Bawb'	●		
Rhoi'r contract cynnal tiroedd ar gyfer Ystadau Tai ar dendr gan gynnwys manylebau sy'n gwella bioamrywiaeth e.e. gadael ardaloedd o laswellt hir ar gyfer bioamrywiaeth.	●		
IAdnabod tir ar gyfer plannu coed a chyflwyno blodau gwyllt i diroedd ysgolion	●	●	●

Cam Gweithredu/Prosiect	Pryd		
Blynyddoedd	1-3 2021/22- 2023/24	4-6 2024/25- 2026/27	7-9 2027/28- 2029/30
Cyflawni'r Prosiect Clefyd Coed Ynn i leihau effaith y clefyd.	●	●	●
Trosi tir newydd y Cyngor drwy aildyfiant naturiol a gwaith plannu coed wedi'i dargedu, gan alluogi mynediad i'r cyhoedd lle bynnag y bo modd	●	●	●
Cyflawni'r gwaith rheoli parth arfordirol ac yn benodol ein hamddiffynfeydd môr naturiol yn Ardal Amddiffyn Arbennig Gronant	●	●	●
Ymestyn y cynllun peilot blodau gwyllt (bwriad i beidio â thorri coed) a gynhaliwyd yn 2020 i fwy o ardaloedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt neu'n eu rheoli e.e. safleoedd tai, safleoedd cartrefi gofal	●	●	●
Cyflawni'r prosiect Tirwedd Darluniadwy i ffensio ardaloedd a hybu coetiroedd i dyfu'n ôl		●	
Gosod toeau gwyrdd ar garejis sy'n eiddo i'r Cyngor		●	
Plannu blodau gwyllt o amgylch meysydd parcio	●		
Camau gweithredu atodol			
Creu porth ar-lein i gipio ac adrodd am Fudd Cymunedol contractau gan gynnwys mesurau yn gysylltiedig â'r agenda hwn	●		
Nodi swyddogion y cyngor sy'n caffael amlaf i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol a chyfraniad caffael sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.	●		
Creu banc o gwestiynau penodol yn ymwneud â charbon ac ecoleg i'w defnyddio yn y broses o werthuso tendrau	●		
Ymgysylltu â chynghorau dinas, tref a chymuned mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth drwy adolygu a diweddaru eu siarter.	●		
Datblygu CDLl newydd i sicrhau fod blaenoriaethau newid hinsawdd a Bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau a phenderfyniadau cynllunio lleol.	●		

Cam Gweithredu/Prosiect	Pryd		
Blynyddoedd	1-3 2021/22- 2023/24	4-6 2024/25- 2026/27	7-9 2027/28- 2029/30
Gweithredu uniongyrchol			
Darparu canllawiau cynllunio atodol o ganlyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol i gefnogi'r rhaglen hon	●		
Sefydlu'r rhaglen a'r nodau wrth ddiweddaru'r Strategaeth Rheoli	●		
Perygl Llifogydd (2014) e.e. pwysleisio dulliau rheoli peryglon llifogydd naturiol sydd hefyd yn gwella bioamrywiaeth	●		
Cynnal dwy Raglen Wirfoddoli bob blwyddyn yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad er mwyn i'r cyhoedd gyfrannu at yr agenda	●		
Datblygu diwrnodau i ffwrdd amgylcheddol i ddarparu sesiynau gweithio mewn tîm a gwella bioamrywiaeth			
Ymgysylltu ag ysgolion ar draws y sir i rannu dysg ac adnoddau ar y rhaglen ac annog newid cadarnhaol mewn ymddygiad.	●		
Gweithio gyda thirfeddianwyr yn Sir Ddinbych i'w hannog i reoli a defnyddio'r tir er budd gwelliannau ecolegol a bioamrywiaeth	●		

31

Strategaeth ariannol i gynnal y strategaeth a'r cynllun gweithredu

Mae toriadau cyllid dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu fod llawer llai o arian ar gael gennym i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau rŵan nac yn y gorffennol.

Mae pwysau ariannol yn debygol o barhau mewn meysydd fel gofal cymdeithasol ac ar ben hyn mae'r Cyngor yn ymroddedig i gefnogi ein cymunedau a'n busnesau i adfer yn dilyn effaith pandemig Coronafeirws.

Er gwaethaf y sefyllfa anodd sy'n ein hwynebu, mae gan y cyngor hwn uchelgais clir i wneud ein cyfraniad i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng ecolegol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r uchelgeisiau i ddod yn ddi-garbon net ac ecolegol gadarnhaol a'r newidiadau a'r camau gweithredu y gallwn eu cymryd i gyflawni'r nodau hyn. Bydd rhai angen buddsoddiad cyfalaf, ac eraill angen cyllid refeniw, ac ni fydd costau ychwanegol o gwbl ar gyfer rhai ohonynt.

Credwn y bydd angen oddeutu £9 miliwn i ddarparu'r prosiectau sydd eu hangen i gyflawni popeth y byddem yn dymuno ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf. Rhagwelwn y bydd yn rhaid i ni fuddsoddi ffigwr tebyg yn y blynyddoedd cyn 2030.

Ond ni fydd yn rhaid i'r holl arian ddod o boced y cyngor. Disgwyliwn y bydd grantiau gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a

chyrff ategol ar gael i helpu i ariannu'r gwaith, a byddwn yn anelu at wneud y mwyaf o'r cyfleodd hyn.

I dalu am y buddsoddiad cyfalaf, bydd angen i ni ymrwymo cyllideb refeniw ac arian. Yn yr hinsawdd airannol sydd ohoni, bydd hyn yn golygu y bydd llai o arian ar gael ar gyfer pethau eraill y bydd y Cyngor o bosibl yn dymuno eu darparu, a disgwyliwn y bydd yn rhaid i ni gasglu ychydig o'r arian drwy fenthyca darbodus.

Mae gennym fesurau yn eu lle i sicrhau bod yr holl benderfyniadau rydym yn eu gwneud ynglŷn â buddsoddiad cyfalaf yn seiliedig ar achosion busnes cadarn a bod y sefyllfa gyffredinol o ran ariannu dyledion yn cael ei monitro'n ofalus ac yn dal i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae ein cynlluniau a'n prosesau cyllideb refeniw yn sefydledig iawn a byddant yn ein galluogi i reoli fforddiadwyedd.

Bydd ein cynlluniau a'n prosesau cyllideb refeniw sefydledig yn ein galluogi i reoli fforddiadwyedd, a bydd hyn yn hanfodol gan y bydd ein nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol yn dibynnu ar a fyddwn yn gallu fforddio cymryd pob un o'r camau gweithredu hanfodol neu beidio.

Fodd bynnag, rydym yn ymrwymo i weithredu'r newidiadau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyfrannu at y broses o fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol lle bynnag y bo modd.

32

Sut fyddwn yn monitro cynnydd

Byddwn yn darparu'r strategaeth hon fel rhaglen o weithgareddau, a gaiff ei chydlynu'n ganolog gyda mewnbwn ac ymdrech gan swyddogion ar draws ein meysydd gwasanaeth gan weithio gyda'n partneriaid lle bo modd.

Y sawl sy'n atebol am gyflawni'r nodau hyn yw Prif Weithredwr y Cyngor fel Noddwr gweithredol y Rhaglen waith. Bydd Aelod/ Aelodau Arweiniol y Cabinet sydd â chyfrifoldeb (a elwir yn 'portffolios') dros Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn darparu'r cyfeiriad gwleidyddol.

Bydd y Cyngor yn cyfrifo ei allyriadau carbon, ei amsugnad carbon a'r cyfoeth o rywogaethau ar ei dir ym mis Ebrill-Mehefin bob blwyddyn i fesur ein perfformiad o ran ein nodau di-garbon net a chadarnhaol ecolegol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (Ebrill-Mawrth). Bydd y Cyngor yn cyflwyno ei ddata ar allyriadau ac amsugno carbon i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, gan ddechrau yn 2021, fel rhan o drefn newydd ar gyfer Adrodd am Nwyon Tŷ Gwydr y Sector Cyhoeddus.

Bydd pwyllgor o'r enw Bwrdd y Cynllun Corfforaethol yn monitro ein cynnydd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys pob Cynghorydd sy'n aelodau o'r Cabinet a phob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth a'r Prif Weithredwr.

Byddwn yn integreiddio mesuryddion perfformiad allweddol ac uchafbwyntiau'r rhaglen i adroddiad perfformiad y Cynllun Corfforaethol, a gaiff ei archwilio bob chwarter drwy'r Tîm Arwain, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu, a bob blwyddyn gan y Cyngor.

Gall Pwyllgorau Craffu ac Archwilio Mewnol hefyd graffu ar ein cynnydd ar adegau priodol yn ystod y naw mlynedd ac yn ôl disgresiwn y Prif Archwilydd Mewnol a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

33

Sut byddwn yn rhannu ein dysgu

Newid hinsawdd ac ecolegol yw'r her fyd-eang sy'n diffinio ein hoes. Bydd gofyn i bawb gyfrannu i ddatrys yr her, gan rannu ymdrechion, gwybodaeth ac adnoddau.

Mae ein dull i gyflawni'r nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol yn agored ac yn gydweithredol. Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu gan eraill, gwneud y mwyaf o gyfleoedd gyda'n gilydd, a rhannu ein profiad dros y cyfnod hwn o naw mlynedd tan 2030.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda'n Partneriaid yn y Sector Cyhoeddus drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus[11] ar ein blaenoriaeth ar y cyd 'Cydnerthedd Amgylcheddol', gan rannu'r pethau rydym wedi'u dysgu o'n hymdrechion i gyflawni ein nodau i ddod yn Gyngor Di-garbon net ac Ecolegol Gadarnhaol, a gofyn am gyngor gan eraill.

Byddwn yn rhannu'r newyddion, cyngor a'r cyfleoedd diweddaraf i gymryd rhan ar wefan gorfforaethol y Cyngor a phorth Ymgynghori'r Cyngor. Byddwn yn cyhoeddi e-newyddlen bob chwe mis yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwaith ar y rhaglen hon, ac rydym yn anelu at gynnal digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus unwaith y flwyddyn.

Fel rhan o'n cymuned, gallwch gofrestru ar gyfer is-grŵp newid hinsawdd a newid ecolegol Y Panel, a chymryd rhan mewn fforwm trafod ar-lein ar themâu newid hinsawdd a newid ecolegol.

11. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn bartneriaeth o asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cydweithio i wella gwasanaethau lleol. Mae rhestr o bartneriaid BGC cyfredol Conwy a Sir Ddinbych i'w gweld yma: https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/ein-partneriaid

Cyngor Sir Ddinbych
Blwch SP 62
Rhuthun
LL15 9AZ.

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council